

Adroddiad ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd

Medi 2022

1. Cyflwyniad

1. Yn dilyn diwedd y cyfnod pontio Brexit (31 Rhagfyr 2020), daeth goruchwyliaeth y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol yn y DU i ben. Gan fod yr amgylchedd yn fater datganoledig, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru.

2. Er mwyn pontio'r bwlch rhwng diwedd y cyfnod pontio Brexit a rhoi trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol ar waith, sefydlodd Llywodraeth Cymru fesurau interim diogelu'r amgylchedd ('mesurau interim'), dan arweiniad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ('yr Asesydd Interim').

3. Ym mis Chwefror 2021, penododd Llywodraeth Cymru Dr Nerys Llewelyn Jones yn Asesydd Interim. Dechreuodd yn ei swydd ar 1 Mawrth 2021 am gyfnod o ddwy flynedd. Mae opsiwn i ailbenodi Dr Llewelyn Jones am flwyddyn ychwanegol, yn amodol ar gytundeb gan y ddwy ochr.

Ein dull ni

4. Wrth gytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Chwchedd Senedd, ymrwymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') i graffu ar weithrediad parhaus y mesurau interim hyd nes y bydd trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol yn cael eu rhoi ar waith.

5. Ar 30 Mehefin 2022, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Llewelyn Jones a chan gynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol ynghylch y flwyddyn gyntaf o weithredu'r mesurau



interim. Cafodd y sesiwn ei llywio gan [Adroddiad Blynyddol yr Asesydd Interim ar gyfer 2021-22](#), (Mehefin 2022) a thystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid.

6. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

2. Y mesurau interim

Sut mae'r mesurau interim yn gweithio?

7. Mae [cylich gorchwyl yr Asesydd Interim](#) yn nodi'r fframwaith eang y mae'r mesurau interim yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Asesydd Interim, Gweinidogion Cymru a staff Llywodraeth Cymru.

8. Wrth amlinellu diben y mesurau interim, mae'r cylich gorchwyl yn nodi:

"[Byddant] yn darparu modd i aelodau'r cyhoedd godi materion am weithredu cyfraith amgylcheddol yma yng Nghymru. Bydd yn darparu ymhellach i'r materion hynny gael eu hystyried gan Asesydd Interim, a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru os yw'r materion a godwyd yn ddilys ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau y maent yn ystyried sydd angen eu cymryd."

9. Eglurodd Dr Llewelyn Jones y gall 'gweithrediad cyfraith amgylcheddol' "feddwl ystyried os yw'r gyfraith yn dal i gyrraedd ei hamcanion gwreiddiol neu rai sydd yn awr yn berthnasol, p'un ai bod y wybodaeth neu'r dogfennau esbonio hefyd am y gyfraith yn hygyrch, neu p'un ai bod gweithrediad ymarferol o'r gyfraith yn cael ei rwystro mewn unrhyw ffordd". Pwysleisiodd nad yw'n gallu ystyried achosion o dorri cyfraith amgylcheddol na meysydd o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

10. Mae Adroddiad Blynyddol 2021-22 yn rhoi manylion y broses gwmpasu i benderfynu a yw cyflwyniad yn ymwneud â gweithredu'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Bydd yr Asesydd Interim "yn nodi deddfwriaeth/cyfraith achosion allweddol ac unrhyw faterion ehangach, gan gynnwys sylw ar y cyfryngau ac unrhyw waith y mae'r Llywodraeth neu gyrff eraill yn ei gyflawni yng nghyswllt y materion a godwyd".

11. Os yw o fewn y cwmpas, bydd y cyflwyniad yn cynnal ymarfer blaenoriaethu i benderfynu a ddylai fod yn destun adroddiad i Weinidogion Cymru. Eglurodd Dr Llewelyn Jones y caiff tri phrif ffactor eu hystyried wrth flaenoriaethu cyflwyniadau: effaith, risg ac adnoddau. Ychwanegodd:

"...effaith: dyn ni'n ceisio ffocysu ein hadnoddau ble byddant mwyaf gwerthfawr-so, er enghraifft, rhoi blaenoriaeth i faterion lle byddai newid cyfraith yn gallu rhoi canlyniad i wella'r amgylchedd. Risg wedyn: rŷn ni'n ceisio ffocysu ein hadnoddau ar ddiffygion yn y gyfraith sydd â siawns da o gael effaith arwyddocaol os na chaiff sylw. A wedyn, o ran adnoddau, mae'n rhaid ceisio ymchwilio i mewn i faterion ond lle mae'n gymesur i'w wneud."

12. Wrth gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, gall yr Asesydd Interim wneud argymhellion ar gyfer y camau sydd angen eu cymryd i gywiro materion gweithredu a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Eglurodd Dr Llewelyn Jones nad oes ganddi bwerau i fynnu bod camau'n cael eu cymryd o ganlyniad i unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud na mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cymryd camau penodol o ganlyniad i argymhellion y mae wedi'u gwneud.

Llenwi'r bwlch llywodraethu?

13. Fe wnaeth cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol groesawu rôl yr Asesydd Interim fel 'ateb tymor byr' wrth i'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol gael eu datblygu. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu bod cwmplas cul y mesurau interim yn golygu bod bwlch llywodraethu yn bodoli yng Nghymru.

14. Eglurodd Annie Smith (RSPB Cymru), yn wahanol i'r Asesydd Interim, fod Swyddfa gysgodol Diogelu'r Amgylchedd (OEP) wedi darparu mecanwaith i ddinasyddion gwyno am achoson o dorri cyfraith amgylcheddol neu ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Pan roddwyd yr OEP ar sail statudol, ym mis Tachwedd 2021, dywedodd y cafodd y materion hynny eu hystyried, a bod hynny wedi bod yn rhan o'i waith adrodd parhaus a'i waith fel corff statudol. Dywedodd nad yw hynny wedi digwydd yn achos rôl yr Asesydd Interim. Ychwanegodd Annie Smith, nad yw rôl yr Asesydd Interim yn annilys nac yn amhrisiadwy – mae'n hollol wahanol, ac nid yw'n gyfwerth â mynediad at gyfiawnder amgylcheddol. Dywedodd nad yw'n llwybr i atebolrwydd i rywun sydd heb gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

15. Dywedodd yr Athro Steve Ormerod fod ystod eang o broblemau'n codi o ganlyniad i'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd, gan gynnwys dibyniaeth ar adolygiad barnwrol i herio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, a pheidio â gallu ymdrin â materion cyfreithiol amgylcheddol sylweddol. Ychwanegodd ein bod ymhell iawn o ddisodli'r hyn oedd gennym cyn i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, ond ymhell o'r hyn sydd ei angen arnom. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gareth Cunningham (y Gymdeithas Cadwraeth Forol).

16. Fe wnaeth Dr Llewelyn Jones gydnabod nad yw'r mesurau interim yn cyfateb i'r union beth oedd yn ei le cyn diwedd y cyfnod pontio Brexit. Ychwanegodd, "heb y ddeddfwriaeth hanfodol i greu corff mwy sylweddol, dim ond hyn a hyn y gallwn ni ei wneud".

3. Y flwyddyn gyntaf o weithredu

Gweithgareddau cychwynnol

17. Mae Adroddiad Blynyddol yr Asesydd Interim ar gyfer 2021-22 yn crynhoi'r gwaith paratoi a wnaed i sefydlu'r gwasanaeth, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am yr Asesydd Interim, cytuno ar gylch gorchwyl, a threfnu cymorth ysgrifenyddiaeth. Mae hefyd yn amlinellu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrawsffiniol y mae'r Asesydd Interim wedi'i gyflawni i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, datblygu rhwydwaith proffesiynol ledled Cymru, a meithrin cysylltiadau gwaith â swyddogion cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU.

Adolygu a gwella prosesau

18. Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2021-22, yn ystod y flwyddyn gyntaf, treuliyd "llawer o amser" yn rhoi prosesau ar waith i alluogi'r Asesydd Interim i wneud ei gwaith. Roedd hyn yn cynnwys "bod wrthi'n gyson yn adolygu ac yn diwygio'r prosesau gan ystyried nifer y cyflwyniadau a gafwyd a'r math o gyflwyniadau a gafwyd, ystyried adborth gan rhanddeiliaid, ac ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu". Mae hyn wedi arwain at gyflwyno proses newydd ar gyfer cwmpasu cyflwyniadau; datblygu egwyddorion blaenoriaethu; cyhoeddi ffurflen ar gyfer cyflwyniadau i sicrhau bod y dystiolaeth gywir yn cael ei darparu; a llunio ffeithlun sy'n nodi'r gwahanol reoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru i helpu'r cyhoedd i gyfeirio'u pryderon at y corff mwyaf priodol.

Galw ar y gwasanaeth

19. Dywedodd Dr Llewelyn Jones fod y galw ar y gwasanaeth wedi bod yn fwy na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn gyntaf, gyda 21 o gyflwyniadau wedi dod i law yn ymwneud ag ystod eang o wahanol faterion amgylcheddol.¹ Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2021-22, mae hyn yn "dangos yn glir bod gan y cyhoedd lawer o ddiddordeb mewn gwarchod yr amgylchedd, a bod yna awydd i sicrhau bod y gyfraith yn gwarchod yr amgylchedd yng Nghymru". Dywedodd RSPB Cymru

¹ Mae modd dadansoddi'r cyflwyniadau fel a ganlyn: coedwigaeth (pedwar); ansawdd dŵr (pump); gwrychoedd (pedwar); gwarchod bywyd gwylt a natur (tri); ansawdd aer (dau); gwastraff (un); mynediad at wybodaeth amgylcheddol (un); rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (un).

fod nifer y cyflwyniadau yn dynodi bod pryder sylweddol yng Nghymru ynghylch sut caiff cyfraith amgylcheddol ei gweithredu.

20. Mae Adroddiad Blynyddol 2021-22 yn cyfeirio at gael "nifer cyson o gyflwyniadau yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn", ac yna "cynnydd amlwg yn nifer y cyflwyniadau yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr [2021]", gyda 15 o gyflwyniadau yn dod i law ystod y cyfnod hwn. Awgrymodd Dr Llewelyn Jones y gallai hyn fod wedi'i ysgogi gan sefydlu'r OEP ac Environmental Standards Scotland, a COP26.

21. O'r 21 o gyflwyniadau, roedd chwech y tu allan i'r cwmpas, yn bennaf oherwydd eu bod yn ymwneud ag achosoion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol neu faterion sy'n destun her gyfreithiol; roedd chwech o fewn y cwmpas ac wrthi'n cael eu hystyried; ac roedd gwaith cwmpasu yn dal i ddigwydd ar gyfer gweddill y cyflwyniadau.

22. Themâu allweddol y cyflwyniadau oedd: coedwigaeth, ansawdd dŵr, a gwrychoedd. Ceir rhagor o fanylion am gyflwyniadau unigol yn Adroddiad Blynyddol 2021-22. Dywedodd Dr Llewelyn Jones y byddai'n cyhoeddi adroddiad i Weinidogion Cymru ar goedwigaeth "yn y dyfodol agos". Roedd hi'n bwriadu cynnal trafodaeth banel yn Sioe Frenhinol Cymru i lywio ei gwaith ar wrychoedd. O ran ansawdd dŵr, dywedodd ei bod yn awyddus i ategu'r gwaith a wnaed eisoes gan y Pwyllgor ac y byddai'n canolbwyntio ar ystyried a oes angen newid y gyfraith neu ei chryfhau.

Adroddiadau i Weinidogion Cymru

23. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn esbonio, o ystyried nifer y cyflwyniadau, "[nad] yw'n bosibl llunio adroddiad ar gyfer pob un". Dywedodd Dr Llewelyn Jones wrth y Pwyllgor, "mae yna fantais o'u grwpio hefyd ac edrych ar y cyfanwaith", gan gynnwys "adroddiad mwy cynhwysfawr".

24. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaeth yr Asesydd Interim lunio unrhyw adroddiadau i Weinidogion Cymru. Eglurodd Dr Llewelyn Jones, er ei bod wedi gobeithio adrodd ar goedwigaeth o fewn y flwyddyn gyntaf, fod y galw ar y gwasanaeth rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021 "[wedi] effeithio yn fawr iawn ar yr amserlen oedd gyda ni, a'r holl waith arall rydym ni'n ei wneud".

Staff ac adnoddau

25. Roedd Dr Llewelyn Jones dan gcontract am o leiaf 20 diwrnod y flwyddyn. Mae hi'n cael cymorth ysgrifenyddiaeth gan weision sifil, sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn yr ysgrifenyddiaeth.

26. Dywedodd Dr Llewelyn Jones fod swyddfa'r Asesydd Interim yn "gorff bach... gydag adnoddau cyfyngedig... yn enwedig wrth inni gymharu, efallai, gyda beth mae cyrff goruchwyllo fel yr OEP a'r ESS yn ei wneud". Dywedodd, yn ymarferol, ei bod wedi gweithio mwy nag 20 diwrnod yn y flwyddyn gyntaf. Ychwanegodd:

"Rwy'n credu roedd e'n anodd iawn rhagweld faint o ddiwrnodau fyddai angen neu faint o faterion fyddai'n dod i sylw, ac yn y blaen, pan roedd hwn yn cael ei sefydlu. Ond, yn amlwg, mae angen ailedrych ar hwnna yn gyson, ac rwy'n credu byddai cael mwy o adnoddau er mwyn gallu delio â'r cwynion sy'n dod mewn o fudd mawr".

27. Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 18 Gorffennaf 2022, dywedodd y Prif Weinidog, tra bod y mesurau interim ar waith, y bydd Llywodraeth Cymru yn "parhau i ystyried beth arall y gellir ei wneud... i sicrhau bod gan yr Asesydd Interim yr adnoddau sydd eu hangen arni i gyflawni ei rôl".

Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

28. Cyfeiriodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol at 'broffil isel' y mesurau interim, yn enwedig o'u cymharu â'r OEP, sydd â phresenoldeb cyhoeddus cryf, yn ôl Annie Smith. Awgrymodd RSPB Cymru nad yw rôl yr Asesydd Interim wedi cael ei hyrwyddo'n eang.

29. Dywedodd Dr Llewelyn Jones fod ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Asesydd Interim yn dda yn y sector cyfreithiol, ond roedd yn cydnabod bod "angen i ni wneud mwy o waith ar gyfathrebu yn fwy eang yn gyhoeddus, a dŷn ni'n edrych ar ddatblygu ein platfformau cyhoeddusrwydd". Roedd hi hefyd yn cydnabod bod "angen gwneud mwy, yn enwedig o ran efallai yr asiantaethau sy'n cynnig cyngor am ddim i bobl, fel ein bod ni'n gallu gwneud yn siŵr bod unrhyw faterion ar yr amgylchedd yn cael y sylw dylen nhw ei gael".

30. Mewn llythyr agored at y Prif Weinidog, fe wnaeth cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol feirniadu gwefan yr Asesydd Interim, gan ddweud "[nad] oes gwefan hawdd ei llywio (neu hyd yn oed, hawdd dod o hyd iddi)". Dywedodd RSPB Cymru fod dod o hyd i dudalen we berthnasol Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar bobl yn gwybod beth i chwilio amdano ar-lein. Eglurodd Annie Smith:

"In the early days, you had to actually Google raising a complaint about the functioning of environmental law in Wales in order to find the relevant information. I think if you contrast that to the websites of the OEP or Environmental Standards Scotland, there's a world of difference there".

31. Fodd bynnag, aeth ymlaen i awgrymu bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud yn fwy diweddar.

Tryloywder

32. Heblaw am Adroddiad Blynyddol 2021-22, nid oes unrhyw wybodaeth ar wefan yr Asesydd Interim am ei rhaglen waith gyfredol. Mae hyn wedi arwain at feirniadaeth gan y sector amgylcheddol am ddiffyg tryloywder. Derbyniodd Dr Llewelyn Jones y feirniadaeth hon ac eglurodd y byddai'n cwrdd â rhanddeiliaid yn fuan i ofyn am adborth ar ei gwaith.

Ychwanegodd, "yn amlwg, mae mwy o waith i'w wneud ar sicrhau'r tryloywder yna, ac mae hwnna'n bwysig iawn i fi".

33. Yn ôl RSPB Cymru, roedd Dr Llewelyn Jones wedi ymrwymo'n ddiweddar i gyfarfodydd chwarterol gyda rhanddeiliaid. Fe wnaeth Annie Smith groesawu hyn fel datblygiad cadarnhaol.

34. Fe wnaeth yr Athro Ormerod gwestiynu pa mor dryloyw neu wybodus oedd pobl am fynediad at Lys Cyfiawnder Ewrop, felly nad oedd yn gwybod a yw'r sefyllfa wedi gwella neu waethygu ers y pwynt hwnnw.

Monitro a gwerthuso effaith

35. Pan ofynnwyd iddi a oedd yn bwriadu monitro effaith ei gwaith a sut y byddai'n gwneud hynny, dywedodd Dr Llewelyn Jones:

"Does yna ddim prosesau ffurfiol yn eu lle o ran monitro, achos, fel rôn i'n dweud, does dim pŵer gen i i orfodi gweithrediad ar yr argymhellion hyn, ond dwi'n credu bod hwnna'n gwestiwn da iawn...Ac efallai fod hwnna'n rhywbeth y gellid edrych arno o ran cryfhau'r broses ar hyn o bryd, cyn bod y corff parhaol yn dod yn ei le."

36. Ychwanegodd, "os nad oes rhywbeth yn digwydd yn sgil yr argymhellion, byddwn i ddim yn hapus i beidio â bod yn y sefyllfa fy mod i'n teimlo ei fod e wedi cael rhyw effaith. Does gen i ddim pŵer i orfodi'r effeithiau neu'r newidiadau hynny, ond byddwn i, wrth gwrs, yn mawr obeithio y byddai'n cael effaith, fel rych chi'n ei ddweud".

37. Tynnodd Annie Smith sylw at rôl y Pwyllgor a'r Senedd o ran dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif am gyflawni'r camau gweithredu y mae'r Asesydd Interim yn eu hargymell. Dywedodd nad oes cosb fwy llym na'r gwaith craffu y gallwch ei ddefnyddio.

4. Pa mor 'interim' yw'r mesurau interim?

38. Wrth gyhoeddi penodiad dwy flynedd yr Asesydd Interim, dywedodd Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod hwnnw y byddai'n "datblygu corff goruchwylio amgylcheddol parhaol, gan ganiatáu cyfnod pontio rhwng y trefniadau interim hyn a'r rhai newydd". Mynegodd cynrychiolwyr y sector amgylcheddol rwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd tuag at ddatblygu'r trefniadau newydd. Dywedodd RSPB Cymru mai ei brif bryder yw bod y gwaith i ddatblygu mesurau parhaol a statudol wedi arafu a bod risg y bydd y mesurau interim yn eu lle yn hirach na'r ddwy flynedd a ragwelwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd ei fod yn hynod bryderus nad oes amserlen glir yng Nghymru o hyd ar gyfer deddfwriaeth i sefydlu corff goruchwylio parhaol.

39. Yn y Bumed Senedd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ('y Grŵp') i helpu i ddatblygu opsiynau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Adroddodd y Grŵp ym mis Medi 2020. Eglurodd Annie Smith fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion y Grŵp, a oedd yn cynnwys sefydlu Comisiwn Amgylchedd annibynnol i oruchwylio'r ffordd y caiff cyfraith amgylcheddol ei gweithredu. Fodd bynnag, dywedodd, "I certainly haven't been involved in, and I'm not aware of, any further work to develop those [recommendations] further...It feels like it has been parked".

40. Yn ôl y cylch gorchwyl ar gyfer yr Asesydd Interim, un o amcanion strategol y mesurau interim yw "cyfrannu at ddatblygu'r dull parhaol o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru". Fodd bynnag, dywedodd Dr Llewelyn Jones wrth y Pwyllgor nad oedd ganddi rôl o ran datblygu trefniadau parhaol y tu hwnt i rannu ei phrofiad fel Asesydd Interim. Dywedodd nad oedd hi eto wedi cael unrhyw drafodaethau ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru am ei phrofiad.

5. Casgliadau ac argymhellion

Trosolwg

Penodwyd yr Asesydd Interim am gyfnod o ddwy flynedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n defnyddio'r amser hwn i ddatblygu corff goruchwylio llywodraethu amgylcheddol statudol, gan ganiatáu ar gyfer cyfnod pontio o'r mesurau interim i'r trefniadau llywodraethu parhaol newydd. Ond, 19 mis yn ddiweddarach, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gynnydd amlwg tuag at ddatblygu corff o'r fath. Mae hyn yn siomedig dros ben.

Er gwaethaf galwadau parhaus gan y Pwyllgor hwn, a chan y pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd, i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu deddfwriaeth i sefydlu corff goruchwyllo statudol, ni fydd Bil yn ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol. Fel y nodwyd gan y Prif Weinidog yn ei lythyr diweddar atom, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno sawl Bil yn y flwyddyn i ddod "gyda'r nod o greu Cymru wyrddach". Er bod y gyfraith newydd hon i'w chroesawu, mae'n hollbwysig bod cyfraith amgylcheddol yn cael ei hategu gan fframwaith llywodraethu cadarn sy'n rhoi trosolwg effeithiol ar weithrediad ac atebolrwydd y llywodraeth pan fydd yn methu â chyflawni. Mae hyn yn rhywbeth sydd wir ar goll yng Nghymru.

Nid yw sicrwydd annelwig y Prif Weinidog fod "y Bil ar ei ffordd" yn gwneud dim i fynd i'r afael â'n pryder ni, a phryder y sector amgylcheddol, fod y corff goruchwyllo statudol, a addawyd gan Lywodraeth Cymru yn y Bumed Senedd, flynyddoedd i ffwrdd o hyd.

Wrth inni golli amynedd fwyfwy wrth aros i Fil gael ei gyflwyno yng Nghymru, mae bellach gan holl wledydd eraill y DU gyrff goruchwyllo statudol ar waith. Er nad yw'r cyrff hyn yn rhydd o feirniadaeth, maent yn darparu swyddogaethau llywodraethu allweddol o ran cydymffurfio a gorfodi, ac yn cynnal hawliau dinasyddion i fynediad at gyfiawnder amgylcheddol. Rhaid inni atal enw da Cymru rhag cael ei israddio o fod yn genedl sy'n rhoi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy wrth ei gwraidd, i un sydd â'r strwythurau llywodraethiant amgylcheddol gwannaf yng Ngorllewin Ewrop.

Mae pum mis yn weddill nes bod penodiad dwy flynedd yr Asesydd Interim yn dod i ben. Mae'n ymddangos yn anochel y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ailbenodi am flwyddyn arall. Byddai'n amhosibl meddwl na fydd corff goruchwyllo statudol wedi'i sefydlu cyn diwedd yr ailbenodiad, sef ym mis Chwefror 2024. Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn.

Mae'r mesurau interim yn cyflawni swyddogaeth bwysig ac mae ganddynt y potensial i gyflawni gwelliannau i weithrediad cyfraith amgylcheddol. Fodd bynnag, maent yn gul o ran eu cwmpas, ac nid ydynt yn agos at fod y corff goruchwyllo sy'n gweithredu'n llawn ac sydd ag adnoddau da y mae ei angen ar Gymru i sicrhau llywodraethu amgylcheddol effeithiol a chydlynol. Dylem bwysleisio nad ydym yn beirniadu perfformiad yr Asesydd Interim na gwaith y gwasanaeth hyd yma, ond yn hytrach yn cwestiynu'r bylchau parhaus ac annerbyniol o ran llywodraethu amgylcheddol Cymru.

Er mai megis dechrau y mae gwasanaeth yr Asesydd Interim o hyd, cawsom ein calonogi gan faint y mae wedi'i gyflawni yn ystod ei flwyddyn gyntaf, a chyda chapasiti ac adnoddau cyfyngedig. Er bod y gwasanaeth wedi cael rhai problemau cychwynol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses gyflwyno, mae wedi llwyddo i'w goresgyn. Fodd bynnag, mae lle i wella

ymhellach, yn enwedig mewn perthynas ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth y cyhoedd, a thryloywder, ac mae'r Asesydd Interim wedi cydnabod hyn. Cawsom ein calonogi gan ba mor barod yr oedd yr Asesydd Interim yn ystod ei sesiwn dystiolaeth i gymryd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth. Rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn o ddefnydd iddi ac y bydd yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.

Recommendation 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu ailbenodi'r Asesydd Interim am flwyddyn arall, sef tan fis Chwefror 2024. Os felly, rhaid iddi egluro'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod corff goruchwyllo statudol newydd yn weithredol cyn diwedd yr ailbenodiad.

Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

Diben y mesurau interim yw cynnig ffordd i aelodau'r cyhoedd godi pryderon am weithrediad cyfraith amgylcheddol. Er gwaethaf hyn, nid yw mor hawdd cael gafael ar wybodaeth i'r cyhoedd ag y dylai fod. Yn ogystal, y tu hwnt i greu gwefan yr Asesydd Interim, nid yw'n glir pa gamau sydd wedi'u cymryd i hyrwyddo'r gwasanaeth ymhlith y cyhoedd yn ehangach.

Recommendation 2. Dylai'r Asesydd Interim weithio tuag at wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth. Fel isafswm, dylent:

- nodi ffyrdd o'i gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth drwy'r wefan, ac
- ymgysylltu â gwasanaethau cyngor am ddim perthnasol yng Nghymru fel ffordd o ddatblygu llwybrau atgyfeirio i'r broses gwyno.

Tryloywder

Credwn ei bod yn bwysig sicrhau tryloywder llawn mewn perthynas â'r mesurau interim a gwaith yr Asesydd Interim, sydd wedi bod ar goll hyd yn hyn. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Asesydd Interim i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid fel ffordd o wella tryloywder. Credwn y gellid gwella tryloywder ymhellach drwy gyhoeddi manylion rhaglen waith dreigl yr Asesydd Interim. Gall hyn hefyd helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth a'u hyder ynddo.

Recommendation 3. Dylai'r Asesydd Interim ymrwymo i gyhoeddi manylion ei rhaglen waith dreigl ar y wefan. Dylid diweddarau'r wybodaeth hon yn rheolaidd.

Adnoddau

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan yr Asesydd Interim ddigon o adnoddau i gyflawni ei rôl a'i chyfrifoldebau yn effeithlon ac yn effeithiol. Rydym yn cwestiynu a yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Nid yw'n glir pa dystiolaeth y defnyddiodd Llywodraeth Cymru i amcangyfrif y galw ar y gwasanaeth a phennu'r gofynion cyfatebol o ran adnoddau, a hynny o ran nifer y dyddiau y caiff yr Asesydd Interim ei chontractio i weithio a'r cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y rôl. Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn â hyn.

Er bod y galw ar y gwasanaeth yn fwy na'r disgwyl yn y flwyddyn gyntaf, roedd yr Asesydd Interim yn gallu ymateb yn brydlon i'r mwyafrif o gyflwyniadau, sy'n galonogol. Ond mae bodloni'r galw o fewn y cyfyngiadau presennol ar gapasiti ac adnoddau wedi arwain at oedi o ran adrodd. Rydym yn pryderu am ôl-groniad posibl o adroddiadau os bydd y galw'n parhau neu'n cynyddu dros amser ac wrth i ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth wella. Gallai hyn effeithio ar foddhad y cyhoedd â'r gwasanaeth ac, yn y pen draw, danseilio ei effeithiolrwydd. Credwn fod achos cryf i Lywodraeth Cymru adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Asesydd Interim.

Recommendation 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y galw ar y gwasanaeth a phennu'r gofynion cyfatebol o ran adnoddau, a hynny o ran nifer y dyddiau y caiff yr Asesydd Interim ei chontractio i weithio a'r cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y rôl.

Recommendation 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau sydd ar gael i'r Asesydd Interim. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fodloni ei hun bod gan yr Asesydd Interim ddigon o adnoddau i gyflawni ei rôl a'i chyfrifoldebau'n effeithiol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ymateb i adroddiadau ac argymhellion

Ceir diffyg eglurder ynghylch y broses y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth ymateb i adroddiadau ac argymhellion yr Asesydd Interim ar gyfer gweithredu. Nid yw hyn yn ddefnyddiol. Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid, y cyhoedd yn ehangach, a'r Senedd, yn deall y broses fel eu bod yn gallu ymgysylltu'n weithredol â hi. Bydd proses sydd wedi'i diffinio'n glir yn helpu i wella tryloywder a chryfhau atebolrwydd.

Rôl gynghorol yn unig yw'r Asesydd Interim. Felly, mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu a ddylid gweithredu ar argymhellion yr Asesydd Interim. Mae disgwyliad cryf i Lywodraeth Cymru

wneud hyn. O fethu â gwneud hynny, byddai perygl o danseilio hyder y cyhoedd yn y mesurau interim.

Recommendation 6. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi ei hymatebion i adroddiadau'r Asesydd Interim ymhen chwe wythnos o'u cael fan bellaf. Dylai'r ymatebion nodi pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r cyngor a/neu'r argymhellion, gan gynnwys amserlenni dangosol ar gyfer cyflawni. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â gweithredu, dylai nodi ei rhesymau.

Recommendation 7. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i hysbysu'r Senedd pan fydd yn cyhoeddi ymateb i adroddiad gan yr Asesydd Interim. Dylai hyn fod ar ffurf datganiad ysgrifenedig.

Monitro a gwerthuso effaith

Yn ôl y cylch gorchwyl ar gyfer yr Asesydd Interim, Tîm Llywodraethu Amgylcheddol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r mesurau interim. Nid yw'n glir sut mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n ymarferol. Nid yw'n glir ychwaith a fydd y gwaith hwn yn ymestyn i fonitro a gwerthuso effaith y mesurau interim ar ganlyniadau amgylcheddol. Byddem yn croesawu eglurhad ar hyn.

Recommendation 8. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau sydd ar waith i fonitro effeithiolrwydd parhaus y mesurau interim ac effaith y mesurau ar ganlyniadau amgylcheddol.